## SEFYLLFA BYD NATUR SIR GAERFYRDDIN – ADAR ADRAN 7 'Â BLAENORIAETH'

**Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – Adran 7 – Rhestrau bioamrywiaeth a'r ddyletswydd i gymryd camau i gynnal a gwella bioamrywiaeth**. Mae'r rhywogaethau sydd wedi'u rhestru yn y tabl hwn wedi'u cydnabod gan Lywodraeth Cymru fel rhan o restr o rywogaethau a mathau o gynefinoedd a geir yng Nghymru. Y mae'n ystyried bod y rhain o bwysigrwydd allweddol i gynnal a gwella bioamrywiaeth yn y wlad hon. Mae'r rhestr (rhestr A7) yn cael ei hadolygu gan LlC a Chyfoeth Naturiol Cymru ar hyn o bryd.

Mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus (ee, LlC, cynghorau) gymryd camau rhesymol i gynnal a gwella'r rhywogaethau a'r mathau o gynefinoedd sydd wedi'u cynnwys yn Adran 7, ac annog eraill i gymryd camau o'r fath. Drwy ddiogelu'r rhywogaethau a'r cynefinoedd hyn, gwella'r rheolaeth arnynt a chodi ymwybyddiaeth amdanynt, gobeithir y gellir cynnal amgylchedd natur gwydn yng Nghymru i'r dyfodol.

Y rhywogaethau Adran 7 yw'r rhywogaethau y mae Partneriaeth Natur Sir Gâr yn ystyried bod angen rhoi'r flaenoriaeth i weithredu yn eu cylch, ond mae rhywogaethau eraill wedi'u nodi ar gyfer gweithredu lleol, lle ceir ychydig o gofnodion, neu lle bo gan Sir Gaerfyrddin boblogaethau lle gellir helpu i warchod neu wella'r rhywogaeth drwy gymryd camau penodol.

Mae **cynefinoedd cysylltiedig** yn cyfeirio at y cynefinoedd Adran 7 perthnasol y rhoddir blaenoriaeth iddynt yng Nghymru.

*Ystadegau tueddiadau poblogaethau adar ar gyfer canlyniadau Arolygon Adar sy'n Nythu (BBS) 2022 – gweled yr wybodaeth gyflawn yma.

| Rhywogaethau | Trosolwg o Sir Gaerfyrddin | Camau â blaenoriaeth a nodwyd yn Sir Gaerfyrddin |
|---|---|---|
| *Alauda arvensis - yr ehedydd*<br><br>© Derek Moore | • **Cynefin cysylltiedig:** Tir Fferm/Glaswelltir yr Iseldir a Gweundir/Yr Arfordir/Yr Ucheldir<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 4 (2022): AMBR<br>• Preswylydd eang ei wasgariad yn Sir Gaerfyrddin sy'n nythu'n bennaf mewn ardaloedd ar yr ucheldir a'r arfordir. Bydd ehedyddion hefyd yn galw heibio ar eu taith fudol ac yn ymwelwyr yn ystod y gaeaf. Mae'r boblogaeth ar hyn o bryd yn weddol sefydlog, ond mae hynny'n dilyn gostyngiadau mawr yn eu niferoedd.<br>• **Tueddiadau 1995-2021*:** 🡻<br>• **Bygythiadau:** mae'n debyg mai colli cynefin nythu addas yn sgil amaethu dwys, a phrinder adnoddau bwyd yn y gaeaf sydd wrth wraidd y gostyngiadau mewn niferoedd. | • Nodi'r potensial i reoli cynefinoedd ar safleoedd allweddol. |
| *Anser albifrons* - gŵydd dalcenwyn Rwsia | • **Cynefin cysylltiedig:** Tir amaeth/Gwlyptir<br>• **Statws presennol:** Yn Sir Gaerfyrddin, ymwelydd prin dros y gaeaf, wedi dychwelyd i'r sir yn ddiweddar. Yn 2021 arhosodd grŵp o 16 am gyfnod byr yn Nryslwyn - y cyfrif mwyaf ers mis Mawrth 1996, pan oedd haid yn gaeafu'n rheolaidd yn Nryslwyn.<br>• **Bygythiadau:** mae'n debygol bod colli adnoddau bwyd prin yn y gaeaf wrth wraidd y gostyngiadau mewn niferoedd. | • Parhau i fonitro safleoedd gaeaf yn flynyddol. |
| *Anthus trivialis*— corhedydd y coed<br><br>© Derek Moore | • **Cynefin cysylltiedig:** Coetiroedd/Ucheldiroedd/Gweundir a Glaswelltir yr Iseldir<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 4 (2022): COCH<br>• Yn Sir Gaerfyrddin, ymwelydd haf magu i'r rhan fwyaf o'r sir.<br>• **Tueddiadau 1995-2020*:** 🡻<br>• **Bygythiadau:** Y gostyngiad o bosibl yn gysylltiedig â newidiadau i strwythur a'r rheolaeth ar goetir, a phatrymau glawiad ar dir gaeafu yng ngorllewin, a phroblemau wrth fudo. | |
| *Botaurus stellaris* — aderyn y bwn<br><br>©Peter Short (rspb-images.com) | • **Cynefin cysylltiedig:** Gwelyau cyrs a chorsydd arfordirol<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 4 (2022): COCH<br>• Ymwelydd prin â Sir Gaerfyrddin dros y gaeaf, gan gynnwys WWT Penclacwydd a morlin Llanelli.<br>• **Bygythiadau:** diffyg cynefin nythu o ansawdd da, ee, gwelyau cyrs wedi'u rheoli ar gylchdro a chynnal lefelau'r dŵr. | |

| | | |
|---|---|---|
| *Branta bernicla* - gŵydd ddu<br><br>©Ben Andrew (rspb-images.com) | • **Cynefin cysylltiedig:** Corsydd arfordirol ac aberoedd<br>• **Statws presennol**: GWYRDD<br>• Yn Sir Gaerfyrddin, yn dal i ymweld yn rheolaidd â Chilfach Tywyn ac Aber Afon Gwendraeth dros y gaeaf, ond cofnodwyd gostyngiad o 36% yn ei niferoedd yn 2019 o gymharu â'r 25 mlynedd cynt.<br>• **Bygythiadau:** gan ei bod ar gyrion de-orllewinol ei chwmpas gaeafu, gallai hyn fod yn arwydd cynnar o effeithiau'n gysylltiedig â'r hinsawdd. | |
| *Caprimulgus europaeus* - y troellwr mawr<br>© Dai Rees<br> | • **Cynefin cysylltiedig:** Coetir / Glaswelltir yr Iseldir a Gweundir/ yr Ucheldir<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 3 (2016): AMBR<br>• Ymwelydd anfynych â Sir Gaerfyrddin dros yr haf, er ei fod ar gynnydd, gan nythu ym mhlanhigfeydd conwydd yr ucheldir. Fe'i cofnodwyd mewn saith lleoliad yn 2022.<br>• **Bygythiadau:** mae diffyg cynefin mewn coedwigoedd addas (dosbarthiadau coed agored ac ifanc) yn ffactor sy'n cyfyngu ar nythu. Byddai ardaloedd mawr o orchudd di-dor yn niweidiol.<br>Effaith ysglyfaethwyr a thywydd gwael ar lwyddiant nythu.<br>Mae'n bosib bod gostyngiad yn niferoedd gwyfynod mawr yn effeithio arno.<br>• Drwy arolygon mewn ardal o 18-km$^2$ yn gysylltiedig â chais cynllunio yng Nghoedwig Brechfa yn ystod 2012-19, datgelwyd dwysedd o wrywod ar gyfradd o 0.82 gwryw/km$^2$. | |
| *Acanthis cabaret* — llinos bengoch fechan<br><br>© Derek Moore | • **Cynefin cysylltiedig:** Coetir<br>• Yn preswylio yn Sir Gaerfyrddin yn y tymor nythu. Fe'i ceir yn bennaf mewn planhigfeydd conwydd ifanc mewn ardaloedd ucheldirol. Hefyd mewn ffeniau helyg a bedw mewn ardaloedd corsiog.<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 4 (2022): AMBR<br>• Yn Sir Gaerfyrddin fe'i gwelir yn rheolaidd mewn cynefin addas.<br>• **Bygythiadau:** Mae data anffurfiol yn awgrymu bod y rhywogaeth hon yn prinhau. Gall colli/rheolaeth ar blanhigfeydd conwydd gael effaith andwyol. Ceir diffyg data ar y rhywogaeth hon – gallai fod yn rhywogaeth darged i'w harolygu'n lleol. | • Gallai fod yn rhywogaeth darged i'w harolygu'n lleol?? |
| *Linaria canabina*— llinos gyffredin<br><br>© | • **Cynefin cysylltiedig:** Tir Fferm/ Glaswelltir yr Iseldir a Gweundir/yr Arfordir/yr Ucheldir/Tir llwyd<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 4 (2022): COCH<br>• **Tueddiadau 1995-2021*:** ↓<br>• Preswylydd eang ei wasgariad sy'n nythu yn Sir Gaerfyrddin. Ceir heidiau mawr ar hyd yr arfordir yn y gaeaf.<br>• **Bygythiadau:** o bosib oherwydd diffyg cyflenwad bwyd yn ystod y tymor nythu, clirio prysgwydd ac amaethu dwys. | |
| *Coccothraustes coccothraustes* - y gylfinbraff<br><br>©Ben Andrew (rspb-images.com) | • **Cynefin cysylltiedig:** Coetir/Tir Fferm<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 4 (2022): AMBR<br>• Er mai prin yw'r cofnodion ohono yn Sir Gaerfyrddin, tybir bod y gylfinbraff yn breswylydd encilgar nad yw pobl yn sylwi arno'n aml. Daw'r cofnodion diweddar o ganol Dyffryn Tywi. Coetiroedd llydanddail neu goetiroedd cymysg sydd wedi cyrraedd eu llawn dwf yw'r hoff gynefinoedd, ac mae'r oestrwydden yn hoff goeden fwydo. Gwelir y rhywogaeth hon yn achlysurol iawn mewn gerddi. Statws heb ei gadarnhau yn Sir Gaerfyrddin.<br>• **Bygythiadau:** Ceir diffyg gwybodaeth am y ffactorau cyfyngol neu'r rheswm dros y gostyngiad mewn niferoedd. Mae'n debygol bod rheoli coetir yn allweddol er mwyn cynnal y boblogaeth. | • Gallai fod yn rhywogaeth darged i'w harolygu'n lleol. |

| | | |
|---|---|---|
| *Cuculus canorus* — y gog<br><br>©Ben Andrew (rspb-images.com) | • **Cynefin cysylltiedig:** Tir Fferm/ Glaswelltir yr Iseldir a Gweundir/Ucheldir/Gwlyptir<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 4 (2022): COCH<br>• Yn Sir Gaerfyrddin, mae'n ymwelydd haf eang ei wasgariad ond yn prinhau.<br>• **Tueddiadau 1995-2021*:** ↑<br>• **Bygythiadau:** Mae prosiect olrhain gan BTO yn awgrymu y gallai'r daith fudo a thir gaeafu yn Affrica fod yn ffactorau wrth wraidd y gostyngiad yn ei niferoedd. Mae'n debygol hefyd bod y gostyngiadau i'w hysglyfaeth, lindys gwyfyn, ac i'w phrif rywogaeth gynhaliol yng Nghymru - corhedydd y waun - hefyd yn ffactorau. | |
| *Cygnus columbianus* — alarch Bewick<br><br>© Mike Richards (rspb-images.com) | • **Cynefin cysylltiedig:** Yr Arfordir/Dŵr Croyw/Glaswelltir<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 4 (2022): COCH<br>• Ymwelydd prin iawn â Sir Gaerfyrddin yn ystod y gaeaf. Y cofnod diwethaf a anfonwyd i'r ganolfan cofnodi bioamrywiaeth leol oedd cofnod o 2017 o WWT Penclacwydd.<br>• **Bygythiadau:** Mae'n bosib bod patrymau nythu wedi symud tua'r dwyrain, a allai wedyn fod wedi effeithio ar fudo yn y gaeaf. Mae elyrch Bewick eisoes yn ymwelwyr anfynych â Chymru, ond cyn hir mae'n debygol y byddant yn rhoi'r gorau i ymweld â Chymru yn rheolaidd dros y gaeaf. | |
| <br>*Dendrocopos minor* - y gnocell fraith leiaf<br>© MJ. Clark | • Cynefin cysylltiedig: Coetir<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 4 (2022): COCH<br>• Yn Sir Gaerfyrddin, mae'n nythwr sydd bellach yn prinhau'n gyflym mewn coedwigoedd, coedlannau ac ardaloedd coediog. Dim ond un cofnod yn 2022.<br>• Mae cael hyd i'r rhywogaeth hon bob amser yn broblemus.<br>• **Bygythiadau:** Mae pren marw sy'n sefyll mewn coetir yn bwysig i'r rhywogaeth hon, fel cyflenwad bwyd ac fel safle nythu, felly mae rheolaeth amhriodol ar goedwigoedd yn fygythiad i'w rhywogaeth hon | |
| *Emberiza citrinella* - y bras melyn<br><br>© Derek Moore | • **Cynefin cysylltiedig:** Tir Fferm/ Glaswelltir yr Iseldir a Gweundir/yr Arfordir/yr Ucheldir<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 4 (2022): COCH<br>• Nythwr a phreswylydd sydd wedi prinhau yn Sir Gaerfyrddin yw'r bras melyn, a chan ei fod yn absennol o rannau helaeth o'r sir, tameidiog yw ei ddosbarthiad yma. Fe'i gwelir amlaf ar lethrau sych rhedynog, ac mae ambell bâr yn parhau mewn cynefin addas ar yr arfordir ym mhen gorllewinol pellaf y sir.<br>• **Tueddiadau 1995-2021*:** ↓<br>• **Bygythiadau:** Dirywiad yn ôl pob tebyg oherwydd amaethu dwys, colli cynefin prysgwydd/ffridd a'u ffynhonnell o hadau sy'n fwyd i'r aderyn, yn enwedig yn y gaeaf. Mae cynefin nythu addas yn cael ei golli yn sgil rheolaeth anaddas ar wrychoedd. | • Gallai fod yn rhywogaeth darged i'w harolygu'n lleol. |
| *Emberiza schoeniclus* — bras y cyrs<br><br>© MJ. Clark | • **Cynefin cysylltiedig:** Gwlyptir<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 4 (2022): GWYRDD<br>• Preswylydd sy'n nythu yn Sir Gaerfyrddin. Fe'i ceir ledled y sir, ond mae'n fwyaf cyffredin ar y gwlyptir ac ar borfeydd brwynog ar dir isel yr arfordir.<br>• **Tueddiadau 1995-2021*:** ↑<br>• **Bygythiadau:** Mae'n ymddangos bod y rhywogaeth hon wedi lledaenu ac erbyn hyn yn defnyddio cynefinoedd nythu is-optimaidd. Mae'n debygol bod ffynonellau bwyd yn y gaeaf yn bwysig. | |

| | | |
|---|---|---|
| *Larus argentatus* - gwylan y penwaig<br><br>© Derek Moore | • **Cynefin cysylltiedig:** Yr Arfordir / Tir Llwyd<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 4 (2022): COCH<br>• Yn Sir Gaerfyrddin, preswylydd cyffredin gyda niferoedd bach yn nythu ar y clogwyni gorllewinol ac ar doeau.<br>• Dangosai cyfrifiadau brig cyfartalog dros bum mlynedd wrth arolygu Adar y Gwlyptir rhwng 1995/5 a 2018/19 fod nifer gwylanod y penwaig ym Mae Caerfyrddin wedi cynyddu o 1472 i 2897.<br>• **Bygythiadau:** mae'r rheswm wrth wraidd y gostyngiad yn eu niferoedd i raddau helaeth yn anhysbys; cafodd botwliaeth effaith, a gallai colli safleoedd nythu (naturiol ac ar adeiladau) fod wedi cael effaith. Mae'r cynhyrchiant o ran cywion hefyd wedi gostwng.<br>• Roedd clwydfan sylweddol yn nythu ar adeilad Pontrilas yn Llanelli, ond mae'r adeilad wedi cael ei ddymchwel a'r boblogaeth wedi symud i rywle arall. | |
| *Locustella naevia*- y troellwr bach<br><br>© Adam Dare | • **Cynefin cysylltiedig:** Glaswelltir yr Iseldir a Gweundir / Gwlyptir / Coetir / Ucheldir<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 4 (2022): COCH<br>• Mae'n ymweld yn lleol yn ystod yr haf i nythu, ond ymddengys ei fod yn gwneud yn dda yn y sir ar hyn o bryd.<br>• **Bygythiadau:** Mae'n bosib bod colli/dirywiad ei gynefin nythu a newidiadau i amgylchiadau gaeafu yn Affrica yn ffactorau wrth wraidd ei ostyngiad cyffredinol.<br>Gall polisi coedwigaeth, rheoli prysgwydd a phori yn yr ucheldir fod yn bwysig gan fod y rhywogaeth yn ffafrio strwythur cynefinol amrywiol. | |
| *Melanitta nigra*- môr-hwyaden ddu<br><br>© I. Macho | • **Cynefin cysylltiedig:** Morol<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 4 (2022): AMBR<br>• Yn bresennol drwy gydol y flwyddyn ym Mae Caerfyrddin, yn aml mewn niferoedd pwysig.<br>• Roedd presenoldeb y rhywogaeth hon yn allweddol o ran creu AGA Bae Caerfyrddin, ac mae'r adar yn cael eu monitro'n rheolaidd gan CNC.<br>• **Bygythiadau:** mae llygredd olew yn fygythiad i'r boblogaeth leol hon yn ogystal â thraffig morol a phrosiectau ynni adnewyddadwy ar y môr. | |
| *Motacilla flava*- y siglen felen<br><br>© Derek Moore | • **Cynefin cysylltiedig:** Gwlyptir<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 4 (2022): COCH<br>Arferai'r siglen felen fod yn ymwelydd haf ac yn nythwr prin. Bellach mae'n ymwelydd prin ar ei thaith fudol yn y gwanwyn a'r hydref.<br>• **Bygythiadau:** mae'r gostyngiad mewn niferoedd yn gysylltiedig â draenio glaswelltir gwlyb yr iseldir a newidiadau i ddulliau ffermio (newidiadau i gyfundrefnau torri a phori) sy'n gostwng nifer y pryfed y mae'n eu bwyta. | |
| *Muscicapa striata* - y gwybedog mannog<br><br>© Andy Hay (rspb-images.com) | • **Cynefin cysylltiedig:** Coetir/Tir Fferm<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 4 (2022): COCH<br>• Mae'n ymwelydd haf ac yn nythwr nad yw'n tynnu sylw ato'i hun ond sydd yn prinhau. Ei gynefin yw coetiroedd agored, parcdiroedd a gerddi sydd â llwyni trwchus<br>• **Bygythiadau:** mae'n ymddangos ei fod yn prinhau yn y sir. Mae'n bosibl bod ymosodiadau gan ysglyfaethwyr ar ei nythod a'r ffaith nad oes llawer o'r adar ifanc yn goroesi yn ffactorau o bwys yn y gostyngiad mewn niferoedd. Gallai hyn ddeillio o ddirywiad yn | |

| | | |
|---|---|---|
| | ansawdd y coetir i adar ifanc sydd wedi gadael y nyth neu amodau gaeafu yn Affrica. | |
| *Numenius arquata* - y gylfinir<br><br>© M Newton | • **Cynefin cysylltiedig:** Yr Arfordir / Iseldir a Gweundir/Glaswelltir/Ucheldir<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 4 (2022): COCH<br>• Mae'n brin iawn yn Sir Gaerfyrddin ac yn nythu ar ardaloedd helaeth o dir pori (tir pori garw a llaith sydd orau). Mae'r aderyn hefyd yn ymwelydd ar ei daith fudol ac yn ymwelydd cyffredin yn y gaeaf ag aberoedd, gan gynnwys Ardal Gwarchodaeth Arbennig Cilfach Tywyn.<br>• **Tueddiadau 1995-2020*:** ↓<br>• **Bygythiadau:** Mae'n debygol nad oes digon o gynefin mewn cyflwr ffafriol i nythu a magu cywion ynddo - mae newidiadau i arferion amaethu a phatrymau pori yn ffactor, yn ogystal â cholli glaswelltir gwlyb. Mae ysglyfaethu wyau hefyd yn ffactor. | • Nodi a diogelu safleoedd nythu presennol yn Sir Gaerfyrddin. |
| *Poecile montanus*- titw'r helyg<br><br>© Adam Dare | • **Cynefin cysylltiedig:** Coetir/Gwlyptir<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 4 (2022): COCH<br>• Mae Cymru'n arbennig o bwysig ar gyfer titwod helyg sy'n preswylio yn y DU.<br>• Yn Sir Gaerfyrddin, mae'n nythwr ac yn breswylydd anghyffredin ar ddwysedd isel. Gall y rhywogaeth hon fyw yn yr un cynefinoedd â thitw'r wern, ond hefyd mae'n byw ar dir mwy llaith lle mae mannau nythu ar gael mewn boncyffion pwdr.<br>• **Bygythiadau:** un o'r adar sy'n prinhau gyflymaf yn y DU. Nid ydym yn sicr pam ei fod yn prinhau, ond mae'n bosib bod y gostyngiad mewn cynefin coetir gwlyb ac yn ansawdd y cynefin hwnnw yn ei wneud yn fwy addas ar gyfer rhywogaethau eraill o ditwod sy'n cystadlu ag ef. | |
| *Poecile palustris* - titw'r wern<br><br>© Derek Moore | • Cynefin cysylltiedig: Coetir<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 4 (2022): COCH<br>• Yn Sir Gaerfyrddin, mae'n nythwr ac yn breswylydd drwy'r flwyddyn sydd â dosbarthiad eang. Mae'r boblogaeth wedi'i gwasgaru'n denau mewn coetiroedd agored a choedlannau agored, ac yn ffafrio strwythur coetir aml-haenog.<br>• **Bygythiadau:** er bod cynefin coetir addas ar gael iddo *mae'n bosib* nad yw'r tirlun a gaiff ei ffermio rhwng coetiroedd yn addas i'r rhywogaeth sefydlog hon, felly gall nythu gwael yn lleol olygu nad oes unrhyw adar yn cael eu denu o ardaloedd eraill. | |
| *Passer domesticus*— aderyn y to<br><br>© B Stewart | • **Cynefin cysylltiedig:** Tir Fferm/Tir Llwyd/Trefol<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 4 (2022): AMBR<br>• Yn Sir Gaerfyrddin, mae'n nythwr preswyl toreithiog a sefydlog. Fe'i ceir mewn ardaloedd trefol, pentrefi, ar fuarthau fferm ac ati.<br>• **Tueddiadau 1995-2020*:** ↑<br>• **Bygythiadau:** ymddengys nad yw dan fygythiad ar hyn o bryd ond nid oes astudiaeth fanwl o adar y to yng Nghymru | • Ymddengys fod ei sefyllfa'n weddol dda ar hyn o bryd. |
| *Passer montanus* - golfan y mynydd<br><br>© MJ. Clark | • Cynefin cysylltiedig: Tir Fferm<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 4 (2022).: COCH<br>• Mae'n debyg ei bod bellach wedi diflannu o Sir Gaerfyrddin fel rhywogaeth sy'n nythu. Nid oes unrhyw gofnodion o'r ddwy flynedd ddiwethaf. Roedd wedi'i chyfyngu i ganol dyffryn Tywi. Tybiwyd mai cadarnle'r rhywogaeth yng Nghymru oedd y safle hwn - 50% neu fwy o holl boblogaeth Cymru o bosib (2005). Fodd bynnag, nid oes ffigurau dwbl wedi'u cofnodi ers 2013.<br>• Yn Nyffryn Tywi roedd y rhywogaeth wedi'i chyfyngu i'r gorlifdir i bob pwrpas, ac anaml iawn y byddai'n cael ei gweld o olwg yr afon. | • Ailedrych ar gefnogaeth ar gyfer gweithredu cadarnhaol yn Nyffryn Tywi. |

| | | |
|---|---|---|
| | • **Bygythiadau:** mae argaeledd ffynonellau hadau yn y gaeaf a'r gwanwyn yn ffactorau cyfyngol. Gallai dibyniaeth yr adar ar dyllau yn y coed i nythu olygu y gallai'r clefyd coed ynn hefyd effeithio arnynt. | |
| *Perdix perdix* — petrisen<br><br>© Derek Moore | • **Cynefin cysylltiedig**: Tir Fferm<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 4 (2022): COCH<br>• Prin yn Sir Gaerfyrddin. Mae'n debyg mai adar a fagwyd gan bobl cyn eu rhyddhau yw'r cofnodion diweddaraf.<br>• **Bygythiadau:** mae'n debyg bod gostyngiad mewn pryfed a hadau ar ddiwedd yr haf ac yn y gaeaf yn ffactor, ond mae'n annhebygol y ceir y betrisen yn gyffredin yng Nghymru eto. | |
| *Phylloscopus sibilatrix* — telor y coed<br><br>© Adam Dare | • **Cynefin cysylltiedig:** Coetir<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 4 (2022): COCH<br>• Yn Sir Gaerfyrddin, mae'n ymwelydd haf sy'n nythu yma. Mae'n fwyaf cyffredin yng nghoetiroedd yr ucheldir.<br>• **Bygythiadau:** bu gostyngiad anesboniadwy ledled Ewrop sydd o bosib yn gysylltiedig ag ardaloedd gaeafu yn Affrica a'r llwybr mudo, mewn perthynas â newid hinsawdd a defnydd tir. Mae modelau hinsawdd yn awgrymu y gallai'r hinsawdd yn rhannau mawr o Gymru fod yn anaddas i deloriaid y coed erbyn diwedd y ganrif, felly mae angen parhau i ddarparu cynefin coetir o ansawdd da er mwyn ceisio eu gwneud yn fwy gwydn yn wyneb newid. | |
| *Prunella modularis* — llwyd y gwrych<br><br>© Derek Moore | • **Cynefin cysylltiedig:** Ffermdir/Coetir/Tir Llwyd<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 4 (2022): AMBR<br>• Yn Sir Gaerfyrddin, mae'n nythwr ac yn breswylydd cyffredin ac eang ei wasgariad. Yn arddangos ymddygiad aml-wrol. Nid yw'n ffurfio parau (fel y rhan fwyaf o adar), ond yn bridio mewn grwpiau o ddau wryw ac un benyw, dwy fenyw ac un gwryw - dau o'r un rhyw a chyfuniadau eraill mewn 'system baru amrywiol'.<br>• **Tueddiadau 1995-2021*:** ↑<br>• **Bygythiadau:** dim bygythiad amlwg nawr. | |
| *Pyrrhocorax pyrrhocorax*- brân goesgoch<br><br>© C. Michael | • **Cynefin cysylltiedig:** Yr Arfordir<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 4 (2022): AMBR<br>• Yn Sir Gaerfyrddin, mae'r adar yn symud i'r dwyrain o Sir Benfro ac erbyn hyn ceir cofnodion nythu ar yr arfordir ym mhen gorllewinol pellaf y sir.<br>• **Bygythiadau:** yn dibynnu'n helaeth ar reoli tir yn briodol er mwyn darparu cynefin fforio addas - glastir byr a digonedd o infertebratau yn y pridd.<br>Gallai gaeafau oer a chyfnodau hir o sychder gael effaith yn lleol yn y tymor byr, ond gallai bygythiadau yn sgil y newid hinsawdd effeithio ar nythu. | Rheoli tir yn briodol ger safleoedd nythu yn y sir. |
| *Pyrrhula pyrrhula*- coch y berllan<br><br>© D. Moore | • **Cynefin cysylltiedig:** Tir Fferm (gwrychoedd/perllannau)/Coetir<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 4 (2022): AMBR<br>• Yn Sir Gaerfyrddin, er ei fod yn aderyn encilgar mae'n breswylydd ac yn nythwr eang ei wasgariad mewn prysgwydd, perllannau a gwrychoedd trwchus.<br>• Ymddengys fod y rhywogaeth yn sefydlog yn lleol.<br>• **Tueddiadau 1995-2021*:** ↓<br>• **Bygythiadau:** mae angen mwy o ymchwil i'r gostyngiad cymedrol yn niferoedd y boblogaeth yng Nghymru. | |

| | | |
|---|---|---|
| *Sterna dougallii* - môr-wennol wridog<br><br>© Brian Burke (rspb-images.com) | • **Cynefin cysylltiedig:** Yr Arfordir<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 4 (2022): COCH<br>• Yn brin yn Sir Gaerfyrddin, ond roedd 2020 yn flwyddyn dda yn y sir, pan gofnodwyd hyd at chwech o wahanol adar. Pum aderyn unigol yn Harbyrau Porth Tywyn/Pen-bre ac un yng Nghefn Sidan.<br>• **Bygythiadau:** Ymddengys fod lefelau uchel o farwolaeth ar dir gaeafu yn Affrica yn achosi gostyngiad mewn adar sy'n nythu. Ar ben hynny, ymddengys bod astudiaethau modrwyo yn dangos bod y gostyngiad mewn môr-wenoliaid gwridog hefyd yn deillio o'r ffaith bod adar yn cytrefi yng Nghymru (a Gogledd Iwerddon) ac yn ymfudo i'r cytrefi yng Ngweriniaeth Iwerddon. | • Darparu a diogelu ardaloedd nythu addas ar safleoedd hysbys/posibl ar hyd yr arfordir. |
| *Sturnus vulgaris*— y ddrudwen<br><br>© D. Moore | • **Cynefin cysylltiedig:** Gwlyptir / Coetir / Tir Fferm / Tir Llwyd<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 4 (2022): COCH<br>Yn Sir Gaerfyrddin, er ei fod yn dal yn weddol gyffredin, mae'n aderyn preswyl sy'n prinhau, ond yn ymwelydd gaeaf niferus.<br>• **Tueddiadau 1995-2021*:** ↓<br>• **Bygythiadau:** mae'r gostyngiad yn nifer y nythwyr o bosib yn deillio o gyfundrefnau rheoli glaswelltir (gan gynnwys defnyddio pryfleiddiadau) sy'n arwain at ostyngiad mewn infertebratau. Gallai cyfraddau goroesi gwael ymhlith adar ifanc fod yn ychwanegu at y gostyngiad, ond ni wyddys eto beth yw achos y gostyngiad hwnnw. | |
| *Streptopelia turtur* — turtur<br> | • **Cynefin cysylltiedig**: Tir Fferm<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 4 (2022): COCH<br>• Yn Sir Gaerfyrddin, ymwelydd prin iawn ar ei thaith fudol, gydag ond tri chofnod yn 2022. Ni thybir ei bod wedi nythu yma ers y 1960au.<br>• **Bygythiadau:** dinistrio cynefinoedd (gan gynnwys cael gwared â gwrychoedd) defnyddio chwynladdwr sydd wedi lleihau ffynonellau bwyd ac effeithiau ar ei thir gaeafu – hela a cholli tir cynefin. Bu Cymru ar gyrion ei chwmpas nythu erioed. | |
| *Turdus philomelos* - y fronfraith<br><br>© Derek Moore | • **Cynefin cysylltiedig:** Coetir/Tir Fferm/Tir Llwyd<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 4 (2022): GWYRDD<br>• Yn Sir Gaerfyrddin, yn nythwr ac yn breswylydd eang ei wasgariad, gyda nifer fach o adar yn mudo yma yn y gaeaf.<br>• **Tueddiadau 1995-2021*:** ↑<br>• **Bygythiadau:** gall unrhyw ostyngiad fod yn gysylltiedig â sychder ac argaeledd molysgiaid a phryfed yn y gaeaf, sy'n gysylltiedig â phridd llaith. | |
| *Turdus torquatus* - mwyalchen y mynydd<br><br>© Les Bunyan (rspb-images.com) | • **Cynefin cysylltiedig:** Ucheldir<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 4 (2022): COCH<br>• Ymwelydd prin sy'n nythu yn yr haf ar greigiau'r ucheldir yn y gogledd-ddwyrain. Dim cofnodion nythu diweddar. Posibilrwydd yn unig yw bod y rhywogaeth hon yn nythu yn Sir Gaerfyrddin. Cofnodion achlysurol ar yr arfordir o adar ar eu taith fudol.<br>• **Bygythiadau:** mae'n debygol bod y rhesymau dros y gostyngiad mewn niferoedd yn gymhleth, ac nad oes dealltwriaeth lawn ohonynt, ond ymddengys fod y cwmpas nythu yn crebachu i dir uwch wrth i dymheredd yr hafau gynyddu, yn enwedig i ardaloedd lle ceir trwch o rug. Mae'r cynefin y mae'r aderyn yn ei ffafrio yn cael ei golli yn sgil coedwigo ac amaethu dwys ar yr ucheldir. Gall pwysau hela wrth fudo fod yn ffactor hefyd. | • Parhau i fonitro'r adar ar safleoedd allweddol yn y sir. |
| *Vanellus vanellus*— cornchwiglen | • **Cynefin cysylltiedig:** Yr Arfordir / Tir Llwyd / Gwlyptir / Tir Fferm<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 4 (2022): COCH<br>• Mae'n nythwr prin iawn yn Sir Gaerfyrddin bellach, ac wedi'i chyfyngu gan fwyaf i'r arfordir. Ymwelydd rheolaidd ar ei thaith fudol/dros y gaeaf, ac i'w chael mewn heidiau mawr yn ystod cyfnodau oer. | |

| | | |
|---|---|---|
| <br>© Derek Moore | • **Bygythiadau:** mae'r gostyngiad mewn niferoedd bron yn siŵr o fod yn gysylltiedig â gwaith gwella glaswelltir, sy'n golygu bod prinder bwyd a mwy o gyfle i ysglyfaethwyr.<br>Mae datblygu safleoedd tir llwyd hefyd wedi golygu colli cynefin nythu.<br>• **Camau gweithredu cyfredol:** Mae WWT wedi gwneud gwaith rheoli i helpu cornchwiglod, ac mae'r niferoedd sy'n nythu wedi cynyddu, ond amharodd ysglyfaethwyr ar y cynnydd cychwynnol hwn mewn adar sy'n nythu. | |
| *Charadrius hiaticula* - y cwtiad torchog<br><br>© Derek Moore | • **Cynefin cysylltiedig:** Yr Arfordir/Dŵr Croyw/Tir Llwyd<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 4 (2022): COCH<br>• Yn Sir Gaerfyrddin mae'n nythu ar draethau ac ar dir yr aflonyddwyd arno ar hyd yr arfordir. Mae adar ar eu taith fudol yn crynhoi yn y gwanwyn a'r hydref ym Mhorth Tywyn, Cefn Sidan, yng nghyffiniau'r Bertwn a Machynys, lle mae niferoedd llai yn treulio'r gaeaf.<br>• Ymddengys fod poblogaeth lai sy'n nythu yn Sir Gaerfyrddin.<br>• **Bygythiadau:** mae'n bosib bod ysglyfaethwyr ac aflonyddwch gan bobl yn ffactorau sy'n amharu ar lwyddiant nythu ar safleoedd arfordirol.<br>Mae cwtiaid torchog sy'n gaeafu wedi prinhau gan fod gaeafau mwynach yn annog mwy ohonynt i dreulio'r gaeaf ymhellach i ogledd a dwyrain Cymru. | |
| *Circus cyaneus* — y bod tinwen<br><br>©Andy Hay (rspb-images.com) | • **Cynefin cysylltiedig:** Gwlyptir/Yr Arfordir/Ucheldir<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 4 (2022): COCH<br>• Yn Sir Gaerfyrddin, ymwelydd rheolaidd ar ei thaith fudol a thros y gaeaf. Fe'i cofnodir gan amlaf ar hyd yr arfordir, ond fe'i ceir hefyd mewn ardaloedd eraill lle mae cyfran helaeth o'r tir yn llystyfiant lled-naturiol a chras.<br>• Mae'r niferoedd wedi cynyddu yng Nghymru ers 1998 - mae'n debyg mai rhoi'r gorau i erlid y rhywogaeth sydd i gyfrif am hynny.<br>• Wrth i'r niferoedd sy'n nythu gynyddu mewn siroedd cyfagos, gobeithir y bydd yr adar yn nythu yn Sir Gaerfyrddin; ymddengys eu bod yn ffafrio coedwigoedd ifanc.<br>• Mae tir fferm agored, a phoblogaethau da o adar a mamaliaid mewn glaswelltir, ffosydd ac ar dir ymylol yn helpu'r rhywogaeth hon.<br>• **Bygythiadau:** llosgi/gorbori ardaloedd ucheldirol, ysglyfaethu | |
| *Falco tinnunculus* — y cudyll coch<br><br>© Derek Moore | • **Cynefin cysylltiedig:** Tir Fferm / Glaswelltir yr Iseldir a Gweundir / Tir Llwyd<br>• Bellach mae'r rhywogaeth yn nythwr preswyl prin sydd â dosbarthiad lleol iawn yn y sir. Mae cudyllod coch ar eu mwyaf niferus yn y mannau lle mae porfeydd garw neu weundiroedd yn cynnal y prif rywogaethau sy'n ysglyfaeth iddynt.<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 4 (2022).: COCH<br>• **Bygythiadau:** gallai gostyngiadau mewn poblogaethau bach o famaliaid a diffyg cynefin addas ar gyfer hela fod yn ffactor sy'n cyfyngu ar y rhywogaeth. Gallai pryfed mawr sy'n ysglyfaeth i adar sydd newydd gael eu hannibyniaeth hefyd fod yn bwysig.<br>• Mae'n debyg mai ffactor arall sy'n achosi gostyngiad yn eu niferoedd yw bod cudyllod coch yn ysglyfaeth i weilch marth.<br>• Problem arall bosib yw eu bod yn cael eu gwenwyno gan lygodladdwyr. | • Codi blychau cudyllod coch ar safleoedd allweddol. |

| | | |
|---|---|---|
| *Ficedula hypoleuca* - y gwybedog brith<br><br>© Derek Moore | • **Cynefin cysylltiedig:** Coetir<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 4 (2022): AMBR<br>• Yn Sir Gaerfyrddin, mae'n ymwelydd haf sy'n nythu yma, ac yn fwyaf cyffredin yng nghoedwigoedd yr ucheldir, ond yn ddiweddar wedi ehangu ei diriogaeth i gynnwys bron yr holl goetir hyd at yr arfordir.<br>• Mae gan Gymru gyfran sylweddol o'r boblogaeth o wybedogion brith sy'n nythu yn y DU.<br>• **Bygythiadau:** cymhleth a heb eu deall, ond gallent gynnwys cystadleuaeth â'r titw mawr am safleoedd nythu, effeithiau'r newid hinsawdd (yn effeithio ar y bwyd sydd ar gael i'r cywion).<br>• **Camau gweithredu cyfredol:** blychau wedi'u codi yn y sir, yn fwyaf diweddar yn Nyffryn Aman gan y Fenter ar gyfer Cadwraeth Natur Cymru. | |
| *Larus ridibundus* - yr wylan benddu<br><br>© Derek Moore | • **Cynefin cysylltiedig:** Yr Arfordir<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 4 (2022): COCH<br>• Yn Sir Gaerfyrddin, roedd nifer helaeth ohonynt yn arfer ymweld o fis Gorffennaf i Fawrth, heb nythu yma, gyda niferoedd llai ohonynt yn ystod misoedd eraill. Maent yn fwy cyffredin ar yr arfordir.<br>• Fodd bynnag, ceir bellach boblogaeth iach sy'n nythu yn WWT, Penclacwydd, gyda 399 o barau yn 2019<br>• **Bygythiadau:** gostyngiad yn ansawdd cynefin nythu addas (ee, prysgwydd yn tyfu dros y tir), ysglyfaethu, aflonyddwch, cystadleuaeth â gwyddau Canada am safleoedd nythu. Angen rhagor o ymchwil. | |
| *Limosa lapponica* - y rhostog gynffonfraith<br><br>© Derek Moore | • **Cynefin cysylltiedig:** Yr Arfordir<br>• Ymwelydd rheolaidd ar ei thaith fudol a thros y gaeaf â'r arfordir, ond mewn niferoedd llai nag o'r blaen.<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 4 (2022): COCH<br>• Wedi'i chofnodi drwy gydol y flwyddyn, er bod y niferoedd yn llai yn yr haf yn Sir Gaerfyrddin.<br>• **Bygythiadau:** Mae'n bosib bod y gostyngiad mewn niferoedd yn deillio o ailddosbarthiad dros y gaeaf yn sgil y newid hinsawdd, gan olygu nad yw adar yn teithio mor bell i'r gorllewin. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod unrhyw bryder ynghylch y rhywogaeth yng Nghymru ar hyn o bryd. | |
| *Pluvialis apricaria* - y cwtiad aur<br><br>© B. Stewart | • **Cynefin cysylltiedig:** Yr Ucheldir/Yr Arfordir<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 4 (2022).: COCH<br>• Yn Sir Gaerfyrddin, mae'n nythwr prin iawn yn ardaloedd yr ucheldir, gyda niferoedd da yn pasio heibio ar eu taith fudol yn y gwanwyn. Mae niferoedd mawr yn gaeafu o amgylch Bae Caerfyrddin.<br>• **Bygythiadau:** yn ddi-os mae'r gallu i nythu yn gysylltiedig â rheolaeth addas ar rostir - gorbori/tanbori corsydd a cholli cynefin yn sgil coedwigo neu bori. | |
| ***Rhywogaethau Adran 7 a gofnodwyd yn flaenorol yn y sir ond yr ystyrir eu bod bellach wedi diflannu ohoni*** | | |
| grugiar ddu *Tetrao tetrix* | | |
| bras yr ŷd *Emberiza calandra* | | |
| rhegen yr ŷd *Crex crex* | | |
| llinos y mynydd *Linaria flavirostris* | | |
| **Rhywogaethau o Bwysigrwydd Lleol yn Sir Gaerfyrddin – heb eu cynnwys ar restr Adran 7 o rywogaethau â blaenoriaeth** | | |
| *Tyto alba* tylluan wen† | • **Cynefin cysylltiedig:** Tir Fferm/Glaswelltir yr Iseldir a Gweundir<br>• Rhywogaeth nythu sy'n byw yn lleol ac sydd wedi prinhau yn sgil colli cynefinoedd a phlaladdwyr.<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 3 (2016): GWYRDD | • Mae ymgyrch gofnodi drwy gardiau post wedi bod ar waith ers tro.<br>• Prosiect lleol a chyllid grant CNC wedi'i ddefnyddio i osod blychau yn y sir. |

| | | |
|---|---|---|
| <br>© M. Newton | • **Bygythiadau:** y gostyngiad mewn niferoedd bron yn siŵr o fod yn gysylltiedig â gwaith gwella glaswelltir a dwysáu amaethu. | • Arolygon wedi'u cynnal ar gyfer ceisiadau cynllunio a allai effeithio ar y dylluan wen. |
| *Charadrius dubius* - cwtiad torchog bach†<br><br>© D. Moore | • **Cynefin cysylltiedig:**<br>• **Statws presennol:** Ymwelydd haf sy'n nythu ar y gro ar lannau Tywi, Cothi a Bran. Mae'r niferoedd a'r dosbarthiad yn dal i gynyddu. Fe'u cofnodir o dro i dro ar yr arfordir ar eu taith fudol.<br>• Cofnodwyd adar yn nythu ar yr ynysoedd gro ar y pantiau llaith newydd a gafodd eu creu yn WWT yn 2019.<br>• cafodd tua 8% o boblogaeth y DU ei fagu yn Sir Gaerfyrddin yn 2010. *British Birds* 106, 2013.<br>• Statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 3 (2016): GWYRDD<br>• **Bygythiadau:** Gall glaw trwm yn ystod y tymor nythu olchi nythod ymaith a gall genweirwyr/buchod sy'n sathru ar nythod fod yn broblem. | • Cynhelir gwaith arolygu blynyddol anffurfiol ar hyd Afon Tywi. |
| *Apus apus* - gwennol ddu†<br><br>© Ben Andrew (rspb-images.com) | • **Cynefin cysylltiedig:** ardaloedd trefol<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 4 (2022): COCH<br>• Ymwelydd haf sy'n nythu, ac sy'n eang ei wasgariad, er ei bod yn prinhau.<br>• **Bygythiadau:** colli safleoedd nythu | • Codi blychau i wenoliaid duon ar safleoedd addas.<br>• Sicrhau na chaiff safleoedd nythu presennol eu colli. |
| *Chloris chloris* - llinos werdd†<br><br>© Ben Andrew (rspb-images.com) | • **Cynefin cysylltiedig:** Coetir, Trefol, Tir Fferm<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 4 (2022):COCH<br>Preswylydd sy'n nythu mewn ardaloedd lle geir prysgwydd neu lwyni - ee, gerddi maestrefol, tir fferm ac ymylon coedwigoedd. Ar ôl y tymor nythu, mae heidiau'n cronni ar hyd yr arfordir o fis Mehefin ymlaen, ac yn aros yno drwy gydol y gaeaf.<br>• **Tueddiadau 1995-2021*:** 🡻<br>• **Bygythiadau:** Cysylltwyd gostyngiad diweddar yn ei niferoedd ag achosion o trichomonosis, clefyd a achosir gan baraseit sy'n atal yr adar rhag bwydo'n iawn. | |
| *Delichon urbicum* — gwennol y bondo†<br><br>©rspb-images.com | • **Cynefin cysylltiedig:** Trefol, Tir Fferm, Gwlyptir<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 4 (2022): AMBR<br>Ymwelydd haf eang ei wasgariad ond lleoledig, fel arfer yn nythu mewn cytrefi bach. Ei niferoedd yn gostwng yn rhai rhannau o'r sir.<br>• **Tueddiadau 1995-2021*:** 🡻<br>• **Bygythiadau:** | |
| *Calidris alpina* - pibydd y mawn†<br><br>© Andy Hay (rspb-images.com) | • **Cynefin cysylltiedig:**<br>• **Statws presennol:** statws Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 4 (2022):COCH<br>• **Bygythiadau:** | |

†Rhywogaethau lleol â blaenoriaeth